Codi safonau a mynd i'r afael â'r baich gwaith mewn ysgolion yng Nghymru

Estyn
Rhagoriaeth i bawb.....Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir wrth fynd i'r wasg. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at publications@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

℗ Hawlfraint y Goron 2005: Gellir defnyddio'r ddogfen/cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos adrannol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

CYNNWYS	TUDALEN

1. Cyflwyniad	**4**
2. Cefndir	**4**
3. Prif ganfyddiadau'r adroddiad	**5**
4. Argymhellion	**8**
5. Cynnydd hyd yma	**8**
Atodiad 1 Tasgau gweinyddol a chlercaidd	**17**

1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) ddogfen yn dwyn y teitl 'Codi safonau a mynd i'r afael â baich gwaith: cytundeb cenedlaethol' ym mis Ionawr 2003. Gosododd hon gynllun saith pwynt a gynlluniwyd i leihau baich gwaith athrawon ac i wella safonau. Mae'r ddogfen yn nodi y bydd 'cynigion yn y Cytundeb ar gyfer newid Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yr un mor gymwys i athrawon Cymru a Lloegr'. Bydd y fenter hon yn cael ei gweithredu dros gyfnod o dair blynedd.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu effaith y Cytundeb Cenedlaethol mewn ysgolion, ers ei gyflwyno a hyd at yr haf 2005. Mae'n rhoi:

- diweddariad ar y cynnydd y mae ysgolion wedi'i wneud ar bob agwedd ar y Cytundeb Cenedlaethol;
- diweddariad ynghylch i ba raddau y gall athrawon dreulio mwy o amser ar y tasgau sy'n cyfrannu at godi safonau; a
- gwybodaeth am y graddau y mae staff cymorth yn helpu yn y broses honno.

2. Cefndir

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar ddau adroddiad blaenorol gan Estyn ar themâu cysylltiedig:

1. Arfer dda mewn cymorth para-broffesiynol a chymorth arall i athrawon – Tachwedd 2003

Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos o arfer dda ac mae'n disgrifio:

- defnyddiau arferol o staff ysgol nad ydynt yn addysgu a'r rhai sy'n cael eu defnyddio mewn ysgolion gan yr awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- effaith staff cymorth ar leihau beichiau gwaith athrawon mewn ysgolion;
- sut gall staff cymorth helpu i godi safonau disgyblion;
- arfer dda wrth ddefnyddio cymorth para-broffesiynol mewn ysgolion; a
- sut mae staff cymorth yn helpu disgyblion ag anawsterau dysgu i gael mynediad at y cwricwlwm.

2. Baich gwaith athrawon – Medi 2004

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylwadau ar agweddau ar fywyd yr ysgol sy'n cael effaith ar faich gwaith athrawon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rôl y llywodraeth genedlaethol a lleol ac asiantaethau eraill;

- materion sy'n codi o arferion gweithio athrawon;

- rolau'r penaethiaid;

- mwy o ddefnydd o staff cymorth; a

- mwy o ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gynorthwyo gweinyddu.

2.2 Mae manylion yr adroddiad hwn ar godi safonau a mynd i'r afael â baich gwaith mewn ysgolion yng Nghymru yn dilyn penawdau'r adran a nodwyd yn y Cytundeb Cenedlaethol gan mwyaf. Mae'n cynnwys diweddariad ar:

- gynllunio ar gyfer newid mewn ysgolion;
- trosglwyddo tasgau gweinyddol a chlercaidd i staff cymorth;
- cydbwysedd gwaith/bywyd ar gyfer athrawon a phenaethiaid;
- staff llanw ar gyfer athrawon absennol;
- goruchwylio arholiadau;
- cyfrifoldebau arwain a rheoli;
- rôl staff cymorth;
- adnoddau i gefnogi newid a ddyrennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- y cymorth y mae Rheolwyr Newid wedi'i rhoi i ysgolion; ac
- effaith lleihau baich gwaith ar ddisgyblion, athrawon ac ysgolion.

2.3 Mae'n tynnu ar drafodaethau gyda:

- phenaethiaid, staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu;
- Rheolwyr Newid;
- Y Panel Cynghori ar Lwyth Gwaith Ysgolion (SWAP); a
- Llywodraethwyr Cymru.

Yn ogystal, mae'n tynnu ar:

- holiaduron a anfonwyd at ddetholiad ar hap o ysgolion ym mhob AALl yng Nghymru; ac
- ymweliadau a wnaed gan Arolygwyr Ei Mawrhydi ag ystod o ysgolion.

3. Prif ganfyddiadau'r adroddiad

3.1 Er bod rhai canlyniadau cadarnhaol o'r Cytundeb Cenedlaethol hyd yma, mae materion sy'n destun pryder yn parhau.

3.2 Mae gweithredu'r Cytundeb Cenedlaethol ar gam rhy gynnar i gael unrhyw effaith arwyddocaol neu fesuradwy ar y safonau y mae'r disgyblion

yn cyflawni. Hyd yma, mae'r newidiadau a weithredwyd heb gael llawer o effaith ddirnadwy, os o gwbl, ar safonau disgyblion.

Canlyniadau cadarnhaol:

3.3 Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2004/2005, roedd rhan fwyaf yr ysgolion yn gadarnhaol am y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Cenedlaethol. Maent wedi canfod eu bod yn gallu ymdopi â'r ddwy flynedd gyntaf o weithredu'r newidiadau.

3.4 Mae rhan fwyaf yr ysgolion:

- wedi mynd i'r afael â phob agwedd ar y Cytundeb, ac mae newidiadau llwyth gwaith bellach yn dechrau cael eu cynnwys fel blaenoriaethau ar gyfer datblygu ysgolion;

- wedi cyflawni llwyddiant wrth drosglwyddo'r tasgau gweinyddol a chlercaidd penodol gan athrawon i staff cymorth (Atodiad 1). Mae hyn wedi rhyddhau amser i athrawon yn gyffredinol; ac

- wedi annog athrawon i ddefnyddio'r amser ychwanegol i ddelio â materion ystafell ddosbarth cyffredinol a chynllunio a marcio yn fwy effeithiol.

3.5 Yn gyffredinol, mae athrawon wedi gwerthfawrogi'r newidiadau i'r ysgolion ac mae llawer yn nodi bod eu cydbwysedd bywyd/gwaith yn gwella.

3.6 Mae'r mater terfyn ar gyfer staff llanw ar gyfer athrawon sy'n absennol yn gymwys i ysgolion uwchradd gan mwyaf. Mae llawer o ysgolion uwchradd yn anelu at leihau'r terfyn presennol o 38 awr i lefelau hyd yn oed yn is dros amser.

3.7 Er nad yw'r newidiadau ar gyfer goruchwylio arholiadau yn dod i rym nes mis Medi 2005, mae nifer o ysgolion eisoes yn defnyddio goruchwylwyr yn hytrach na staff addysgu ar gyfer arholiadau allanol.

3.8 Ceir categorïau newydd o staff cymorth mewn ysgolion uwchradd, er enghraifft goruchwylwyr llanw.

3.9 Mae gwaith y staff cymorth yn cyfrannu at leihau gwaith baich yr athrawon ym mhob ysgol. Mae mwy o ddefnydd o staff cymorth yn galluogi athrawon i dreulio mwy o amser ar faterion dysgu ac addysgu.

3.10 Cyflogwyd staff cymorth ychwanegol mewn llawer o ysgolion cynradd ac, mewn ysgolion eraill, cafodd oriau cyflogaeth staff cymorth presennol eu hymestyn.

3.11 Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adnoddau ychwanegol arwyddocaol i gefnogi'r Cytundeb. Dyrannwyd yr arian hwn i'r AALlau i'w ddosbarthu i ysgolion ar sail fformiwlâu wedi'u cytuno'n lleol.

3.12 Mae nifer o ysgolion wedi sefydlu Timau Newid ond, yn rhan fwyaf yr ysgolion, daeth y gefnogaeth am newid o strwythurau rheoli sy'n bodoli. Nid yw hyn wedi cael unrhyw effaith andwyol ar yr ysgolion hynny.

Achosion gofid:

3.13 Er bod newidiadau llwyth gwaith bellach yn dechrau ymddangos fel blaenoriaethau ar gyfer datblygu ysgolion, ar gyfer y tymor byr yn unig yw hyn mewn llawer o ysgolion. Mae ysgolion yn amharod i gynllunio ar gyfer newidiadau tymor hir sydd â goblygiadau ariannol sylweddol pan na fydd cyllidebau'n hysbys

3.14 Mae llawer o athrawon yn nodi bod yr amser ychwanegol heb addysgu a grëwyd wedi bod yn ddibwys.

3.15 Nid yw rhan fwyaf yr ysgolion yn monitro'r newidiadau nac yn arfarnu effaith y newidiadau ar safonau cyflawniad disgyblion. Ychydig iawn o ysgolion sydd wedi gwneud unrhyw fath o gysylltiad rhwng tynnu tasgau gweinyddol a chlercaidd ymaith wrth yr athrawon a'r gwelliannau mewn safonau.

3.16 Mewn rhai ysgolion bach iawn, ni chafwyd lawer o dystiolaeth o leihad yn y baich gwaith. Mae ysgolion yn parhau i fod heb gymorth clercaidd a gweinyddol am gyfnodau hir yn ystod pob wythnos.

3.17 Mae'r cysyniad o gydbwysedd gwaith/bywyd ar gyfer penaethiaid yn anodd iawn i lywodraethwyr fynd i'r afael ag ef. Mae'r Cytundeb yn nodi 'Bydd angen i Gyrff Llywodraethol sicrhau bod gan y pennaeth faich gwaith priodol…'. Fodd bynnag, gan fod penaethiaid yn cyfarwyddo eu gwaith eu hunain gan mwyaf, nid ydynt yn aml yn ystyried materion cydbwysedd gwaith/bywyd ar gyfer nhw eu hunain.

3.18 Mae'r materion sy'n gysylltiedig â lleihau baich gwaith ac ailfodelu'r gweithlu wedi cynyddu baich gwaith penaethiaid, o leiaf yn y tymor byr

3.19 Mewn llawer o ysgolion, ychydig amser nad yw'n addysgu ychwanegol a gafwyd ar gyfer aelodau'r timau arweinyddiaeth. Mae'r amser a gymerwyd i gynllunio a gweithredu'r Cytundeb Cenedlaethol wedi disgyn ar dimau arweinyddiaeth gan arwain at alwadau ychwanegol ar y grŵp hwn.

3.20 Mae llawer o ysgolion yn ei chael hi hyd yn oed yn fwy anodd nag oedd hi'n arfer bod i gael staff llanw i lanw ar gyfer arbenigwyr pwnc.

3.21 Mae nifer o ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, yn cael anhawster yn dod o hyd i staff cymorth. Mae'n broblem mewn ysgolion gyda chyfleusterau addysgol arbenigol hefyd. Mae rhai

ysgolion yn nodi bod ansawdd staff cymorth yn amrywio.

3.22 Nid yw rhai ysgolion yn trefnu lleoli staff cymorth yn dda ac mae hyn yn tanseilio eu heffaith posibl.

3.23 Ceir gwahaniaethau yn y fformiwlâu ariannu ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Cenedlaethol ledled Cymru. Mae hyn wedi effeithio ar ddosbarthu adnoddau rhwng sectorau cynradd ac uwchradd a rhwng ysgolion tebyg mewn AALlau gwahanol.

3.24 Er bod ysgolion wedi ymdopi'n gyffredinol dda hyd yma gydag adnoddau ar gyfer lleihau baich gwaith, mae pob ysgol yn poeni am lefelau nawdd cynaliadwy ar gyfer lleihau baich gwaith ac ailfodelu'r gweithlu ar gyfer y dyfodol.

3.25 Bu ansawdd y cyrsiau a gynhaliwyd gan Reolwyr Newid a'r cymorth a ddarperir ganddynt ar gyfer ysgolion unigol yn amrywiol.

3.26 Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi digon o wybodaeth am leihau baich gwaith ac ailfodelu'r gweithlu i athrawon, rhieni a llywodraethwyr. Mae rhieni a llywodraethwyr, yn enwedig, yn anymwybodol gan mwyaf o oblygiadau arwyddocaol y newidiadau a weithredwyd hyd yma ac o'r rhai a fabwysiadwyd o fis Medi 2005 ymlaen.

4. Argymhellion

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

A1. fonitro effaith lleihau baich gwaith ac ailfodelu'r gweithlu ar faich gwaith y penaethiaid;

A2. rhoi arweiniad i ysgolion ar gydbwysedd gwaith/bywyd a sut y gellir cyflawni hyn, yn enwedig i benaethiaid;

A3. llunio gwybodaeth benodol i athrawon, rhieni a llywodraethwyr am leihau baich gwaith ac ailfodelu'r gweithlu; a

A4. sicrhau bod digon o nawdd yn y dyfodol i gefnogi gweithredu'r Cytundeb Cenedlaethol yn llawn.

Mae angen i ysgolion:

A5. gynllunio i weithredu'r Cytundeb Cenedlaethol yn fanwl;

A6. integreiddio'r cynlluniau hyn yn llawn i gynlluniau datblygu ysgol tymor hir; a

A7. monitro ac arfarnu effaith y newidiadau ar:

- faich gwaith yr athrawon; a
- safonau cyflawniad disgyblion.

5.Cynnydd hyd yma

5.1 Mae gan y Cytundeb Cenedlaethol oblygiadau arwyddocaol ar gyfer:

- cynllunio ysgol;
- tasgau gweinyddol a chlercaidd a gyflawnir gan athrawon;
- cydbwysedd gwaith/bywyd athrawon a phenaethiaid;
- staff llanw ar gyfer athrawon absennol;
- goruchwylio arholiadau;
- cyfrifoldebau arweinyddiaeth a rheolaeth;
- rolau'r staff cymorth;
- adnoddau a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; a
- rheolwyr newid.

Cynllunio

5.2 Mae ysgolion sydd wedi cynllunio'n ofalus wedi bod yn gallu gwneud cynnydd da wrth weithredu'r newidiadau sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Cenedlaethol. Mae ysgolion yn datblygu eu hymagweddau eu hunain at faterion lleihau baich gwaith.

5.3 Mae rhan fwyaf yr ysgolion yn ymgymryd â rhyw fath o gynllunio ar gyfer y newidiadau ond fel arfer yn y tymor byr ac ar gyfer gweithgareddau cyfredol yn unig.

5.4 Nid yw nifer fawr o ysgolion yn ystyried materion sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Cenedlaethol fel rhan o'u datblygiadau eu hunain sydd ar y gweill ac felly, nid ydynt yn eu cynnwys yng nghynllun datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, yn yr ysgolion hynny lle mae'r pennaeth a'r uwch reolwyr yn gadarnhaol am y newidiadau, mae cynllunio manwl yn bodoli.

5.5 Mewn ychydig dros hanner yr ysgolion a holwyd, mae newidiadau i'r baich gwaith a'r gweithlu bellach yn flaenoriaethau. Mae hyn yn benodol ar gyfer cyflwyno amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu o fis Medi 2005 ymlaen. Serch hynny, ychydig gynlluniau sy'n cynnwys agweddau ar y Cytundeb Cenedlaethol dros y tymor hwy. Mae ysgolion yn amharod i gynllunio ar gyfer newidiadau sy'n cael goblygiadau ariannol arwyddocaol pan na fydd cyllidebau'n hysbys iawn.

5.6 Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion wedi llunio cynlluniau gweithredu penodol sy'n ymwneud â chodi safonau a mynd i'r afael â baich gwaith. Yn yr ysgolion hyn, mae staff wedi nodi amcanion allweddol yn ymwneud â materion baich gwaith ac maent wedi cynnwys targedau a graddfeydd amser i'w datblygu. Yn ogystal, mae'r ysgolion hyn wedi nodi'r adnoddau angenrheidiol i weithredu'r newidiadau arfaethedig hefyd.

Tasgau gweinyddol a chlercaidd

5.7 Mae'r Cytundeb Cenedlaethol yn nodi 'dylai athrawon gael cymorth fel y gallant ganolbwyntio ar addysgu a dysgu a disgwyl i waith prosesu gweinyddol a chlercaidd gael ei wneud gan staff cymorth. O ganlyniad, ni ddylid mynnu bod athrawon yn ymgymryd â thasgau gweinyddol neu glercaidd yn rheolaidd.' (Atodiad 1)

5.8 Dim ond ychydig ysgolion sydd wedi mesur a chynllunio'n ffurfiol y defnydd o'r amser ychwanegol a grëwyd trwy ddileu tasgau gweinyddol a chlercaidd. Yn gyffredinol, nid yw ysgolion eto wedi cysylltu gostyngiadau yn y tasgau hyn â mwy o ffocws ar weithgareddau dysgu ac addysgu a chodi safonau cyflawniad disgyblion.

5.9 Mae rhan fwyaf yr ysgolion wedi cynyddu nifer ac ystod y staff gweinyddol a staff cymorth eraill i fynd i'r afael â'r 25 o dasgau a nodwyd yn y Cytundeb Cenedlaethol nad oes angen iddynt gael eu cyflawni'n rheolaidd gan athrawon. Bu rhan fwyaf yr ysgolion yn llwyddiannus wrth drosglwyddo'r tasgau hyn o'r athrawon i'r staff cymorth. Bu hyn yn fwyaf llwyddiannus mewn ysgolion sydd wedi mynd i'r afael â throsglwyddo tasgau fel un mater.

5.10 Fodd bynnag, mae rhai ysgolion wedi tynnu rhai o'r tasgau oddi wrth athrawon ond wedi cadw rhai eraill. Mae hyn yn bennaf oherwydd mae'n anodd i newid arferion gweithio'r athrawon, er enghraifft, llungopïo ac arddangos gwaith disgyblion.

5.11 Mae mwyafrif yr athrawon yn gwerthfawrogi bod eu baich gwaith sylweddol yn cael ei gydnabod a'i fod yn cael ei leihau'n raddol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o athrawon yn poeni y gallai rhieni cael ar ddeall bod y Cytundeb Cenedlaethol yn golygu bod eu rôl a'u statws proffesiynol yn cael eu gwanhau.

5.12 Yn gyffredinol, mae tynnu tasgau gweinyddol a chlercaidd oddi wrth athrawon wedi galluogi mwy o amser nad yw'n addysgu iddynt yn gyffredinol. Bu'r amser ychwanegol nad yw'n addysgu a grëwyd yn ddibwys i lawer o athrawon. Weithiau, mae athrawon yn defnyddio unrhyw amser ychwanegol a grëir ar gyfer gweithgareddau ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd heb weld llawer o welliant yn eu baich gwaith cyffredinol. Fodd bynnag, mae rhai athrawon wedi defnyddio'r amser ychwanegol yn benodol er mwyn cynllunio a marcio gwaith disgyblion yn fwy effeithiol.

5.13 Mewn rhai ysgolion bach iawn y mae materion lleihau baich gwaith wedi cael yr effaith leiaf. Mae rhai ysgolion yn parhau heb gymorth clercaidd a gweinyddol am gyfnodau sylweddol yn ystod pob wythnos. Mae ysgolion bach yn parhau heb lawer o hyblygrwydd ariannol i wneud newidiadau. Mewn un ysgol gynradd yr ymwelwyd â hi, nid oedd unrhyw staff clercaidd. Mae'r holl waith gweinyddol yn parhau i gael ei wneud gan y pennaeth.

Cydbwysedd gwaith/bywyd rhesymol

5.14 Mae cydbwysedd gwaith/bywyd yn ymwneud â helpu athrawon i sicrhau bod eu baich gwaith yn eu galluogi i dreulio amser ar eu diddordebau personol y tu allan i'r gwaith. Mae'r Cytundeb Cenedlaethol yn cyfeirio at gydbwysedd

gwaith/bywyd ac mae'n nodi y 'dylai fod gan bob athro gydbwysedd rhesymol rhwng gwaith a bywyd' a 'bydd angen i benaethiaid sicrhau bod gan eu staff feichiau gwaith priodol, i helpu sicrhau bod cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith a bywyd teuluol, o ran eu hiechyd a'u lles'. At hynny, 'bydd angen i Gyrff Llywodraethol sicrhau bod gan y pennaeth faich gwaith priodol, i helpu sicrhau bod cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith a bywyd…'.

5.15 Mae athrawon newydd gymhwyso yn disgwyl y bydd ysgolion wedi bodloni telerau'r Cytundeb Cenedlaethol yn llawn. Mae athrawon mwy profiadol yn ystyried y cytundeb yn gadarnhaol ond mae llawer yn ddrwgdybus hefyd ac yn teimlo efallai mai menter dros dro yn unig fydd hi. Weithiau nid yw'r athrawon hyn am ildio rhai o'r tasgau maent wedi'u gwneud erioed. At ei gilydd, mae rhan fwyaf yr athrawon yn adrodd gwelliant yn eu baich gwaith wrth i benaethiaid geisio mynd i'r afael â gofynion y Cytundeb Cenedlaethol.

5.16 Mae ychydig ysgolion wedi sefydlu polisi ar gydbwysedd gwaith/bywyd. Fel arfer, mae'r polisïau hyn yn cyfeirio at:

- oriau gwaith yr athrawon;
- pa waith fydd angen iddynt wneud y tu allan i oriau ysgol; a
- sut mae'r ysgol yn datblygu cydbwysedd gwaith/bywyd yr athrawon.

5.17 Byddai rhan fwyaf yr ysgolion yn croesawu arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gynnal a chadw cydbwysedd gwaith/bywyd. Eir i'r afael â'r mater yn fwy llwyddiannus ar gyfer athrawon nag ar gyfer penaethiaid.

5.18 Mae'r cysyniad o gydbwysedd gwaith/bywyd ar gyfer penaethiaid yn anodd iawn i lywodraethwyr fynd i'r afael ag ef. Mae'r cytundeb yn nodi 'bydd angen i Gyrff Llywodraethol sicrhau bod gan y pennaeth faich gwaith priodol, i helpu sicrhau bod cydbwysedd rhesymol rhwng gwaith a bywyd, o ran eu hiechyd a'u lles'. Fodd bynnag, gan fod penaethiaid yn cyfarwyddo eu gwaith eu hunain gan mwyaf, nid ydynt yn aml yn ystyried materion cydbwyso gwaith/bywyd eu hunain. Yn ogystal, mae'r materion sy'n gysylltiedig â lleihau baich gwaith, ailfodelu'r gweithlu a mentrau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi mwy o bwysau ar benaethiaid.

5.19 Mae rhan fwyaf yr ysgolion wedi lleihau nifer y cyfarfodydd staff a gynhelir. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynllunio mwy o flaen llaw gyda chyfarfodydd nad ydynt yn hanfodol yn cael eu canslo.

5.20 Mae nifer gynyddol o benaethiaid yn dechrau gweithio gartref i gwblhau rhai tasgau ysgrifenedig, er enghraifft, paratoi adroddiadau tymhorol i lywodraethwyr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn lleihau eu baich gwaith o reidrwydd.

5.21 Mewn llawer o ysgolion, mae penaethiaid a llywodraethwyr wedi cydweithio i leihau nifer y cyfarfodydd corff llywodraethol llawn a'r cyfarfodydd pwyllgor a gynhelir. Mae nifer fawr o ysgolion yn trefnu bod cyfarfodydd cyrff

llywodraethol yn dechrau'n gynharach.

Staff llanw ar gyfer athrawon absennol

5.22 Mae'r Cytundeb Cenedlaethol yn cyfeirio at achlysuron pan fydd yr athro cymwys sydd fel rheol yn gyfrifol am ganlyniadau dysgu disgyblion yn absennol o'r ystafell ddosbarth. Mae'n cynnig nifer o gamau cysylltiedig ar staff llanw gan gynnwys:

- '…cyfyngu ar ba mor aml y gellir gofyn yn annisgwyl i athrawon mewn ysgol gyflenwi yn lle cydweithiwr absennol, a dylid symud yn raddol tuag at sefyllfa lle mai dim ond anaml y dylai hyn ddigwydd; a
- '…ni fydd angen i unrhyw athro lanw am fwy na nifer benodol o oriau'r flwyddyn. Ar y dechrau, 38 fydd nifer yr oriau a ganiateir, ond dylai fod yn anarferol i'r mwyafrif o athrawon gyflenwi am gynifer o oriau…'.

5.23. Mae'r mater o lanw ar gyfer athrawon sy'n absennol yn fwyaf perthnasol mewn ysgolion uwchradd. Mae rhai ysgolion uwchradd wedi penodi goruchwylwyr llanw i ddelio ag absenoldebau staff. Mae'r rhain yn staff cymorth sydd wedi'u penodi'n benodol i oruchwylio dosbarthiadau pan fydd athrawon yn absennol ac i helpu gyda dyletswyddau eraill. Nid yw goruchwylwyr llanw yn athrawon cymwys ond mae ganddynt addysg gyffredinol dda, a gallant uniaethu'n dda gyda phobl ifanc. Fel arfer mae ysgolion sy'n penodi goruchwylwyr llanw yn cynnig rhaglen sefydlu a hyfforddi llawn. Weithiau, gall hyn gynnwys hyfforddiant mewn strategaethau rheoli ymddygiad.

5.24. Mae'r Cytundeb Cenedlaethol yn nodi 'mae model y goruchwyliwr cyflenwi yn arbennig o ddilys lle mae athro wedi gallu gosod gwaith, neu lle y gall disgyblion ymgymryd â dysgu hunangyfeiriedig effeithiol…mae goruchwylwyr cyflenwi ar gyfer absenoldebau tymor byr yn unig'.

5.25. Mae ysgolion uwchradd yn anelu at leihau'r cyfyngiad o 38 awr o ddarpariaeth llanw i lefelau hyd yn oed yn is dros amser. Mae un ysgol uwchradd eisoes wedi cyfyngu'r ddarpariaeth llanw i 14 awr y flwyddyn.

5.26. Mae'r cyfyngiad llanw o 38 awr (mae hyn yn gyfwerth â thua un awr o ddarpariaeth llanw yr wythnos ar hyd y flwyddyn) yn cael effaith andwyol mewn rhai ysgolion uwchradd am ei fod yn lleihau rhywfaint o'r hyblygrwydd.

5.27. Mae gan lawer o ysgolion hyd yn oed mwy o anhawster wrth ddod o hyd i arbenigwyr pwnc i lanw ar gyfer athrawon addysg gorfforol, technoleg a gwyddoniaeth absennol.

5.28. Teimla rhan fwyaf yr athrawon y byddai'n ddymunol darparu athrawon wedi'u hyfforddi i lanw ar gyfer absenoldebau.

Goruchwylio arholiadau

5.29 Er nad yw'r newidiadau ar gyfer goruchwylio arholiadau yn dod i rym tan fis

Medi 2005, mae nifer o ysgolion eisoes yn defnyddio goruchwylwyr ar gyfer arholiadau wedi'u gosod yn allanol.

5.30 Nid yw goruchwylwyr yn athrawon neu'n gyn-athrawon bob amser mewn llawer o ysgolion. Mae llawer yn staff cymorth sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer y diben penodol hwn.

5.31 Mae llawer o ysgolion yn sefydlu timau goruchwylio. Weithiau mae penaethiaid neu athrawon wedi ymddeol yn arwain y timau hyn.

5.32 Mae un AALl wedi llunio disgrifiad swydd, a gytunwyd gan bob ysgol, ar gyfer Goruchwylwyr Arholiadau. Bu hwn yn ddefnyddiol i ysgolion gyfeirio ato wrth benodi staff i'r swyddi hyn.

5.33 Mae rhai ysgolion wedi penodi Swyddog Arholiadau o blith eu staff cymorth. Mae'r person hwn yn gyfrifol am weithredu arholiadau mewnol ac allanol yr ysgolion yn ddiogel ac yn effeithlon.

5.34 Mynegodd rai disgyblion bryderon am na fyddent yn adnabod y Goruchwylwyr Arholiadau. Roeddent yn poeni efallai na fyddai gan oruchwylwyr ddigon o wybodaeth neu arbenigedd i'w cynghori'n gywir petai materion yn codi yn ystod arholiadau.

Cyfrifoldebau arwain a rheoli

5.35 'Mae'r Cytundeb Cenedlaethol yn cyfeirio at aelodau o'r grŵp arwain sy'n cael 'amser i ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau arwain a dylid eu cynorthwyo i arwain yr agenda ddiwygio a'r rhaglen rheoli newid yn eu hysgolion'… a chael cyfnod rhesymol o amser wedi'i glustnodi i'w cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau arwain a rheoli.

5.36 Mewn llawer o ysgolion, ychydig amser ychwanegol y mae aelodau timau arwain yn ei gael.

5.37 Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, nid yw penaethiaid yn gwneud rhai tasgau maent wedi bod yn eu gwneud yn hanesyddol gan eu bod yn teimlo nad ydynt yn ddigon cysylltiedig ag addysgu a dysgu. Mewn ysgolion cynradd, mae hyn yn cynnwys staff gweinyddol yn mewnbynnu data ar y cyfrifiadur ac yn gwirio materion ariannol ac archebion o ddydd i ddydd.

5.38 O ganlyniad i'r pwysau baich gwaith cynyddol ar benaethiaid, mewn llawer o ysgolion, mae uwch dîm rheoli bellach yn edrych yn ofalus ar y gwaith y mae'r pennaeth a'r grŵp arwain yn cymryd rhan ynddo a'r hyn y gall eraill ei wneud.

5.39 Mae nifer fawr o ysgolion cynradd wedi creu rhywfaint o amser i arweinwyr pwnc fonitro ac arfarnu safonau ar draws yr ysgol yn y pynciau maent yn gyfrifol amdanynt.

Staff cymorth

5.40 Mae gan y Cytundeb Cenedlaethol oblygiadau sylweddol ar gyfer rolau staff cymorth mewn ysgolion. Yn gyffredinol, mae gan staff cymorth bellach fynediad at fwy o rolau a gwell dewisiadau a chyfleoedd gyrfa.

5.41 Mae pob ysgol wedi cynyddu'r rôl y mae staff cymorth yn ei chwarae ym mywyd yr ysgol trwy gyflogi staff ychwanegol, trwy gynyddu'r oriau y mae staff presennol yn gweithio neu drwy gyfuniad o'r ddau. Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cyflogi staff cymorth traddodiadol ychwanegol fel croesawyr, clercod ysgol, swyddogion gweinyddol a chynorthwywyr cymorth dysgu. Mae ysgolion eraill wedi ymestyn oriau gwaith y staff cymorth presennol.

5.42 Mae ysgolion uwchradd wedi cyflogi mwy o staff cymorth mewn rolau newydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft, rheolwyr data, technegwyr reprograffeg, swyddogion presenoldeb, rheolwyr rhwydwaith, goruchwylwyr llanw, rheolwyr ymddygiad a swyddogion arholiadau.

5.43 Ym mhob ysgol, mae'r gwaith y mae staff cymorth yn ei wneud yn cyfrannu at ostyngiad ym maich gwaith yr athrawon. Mae staff cymorth yn galluogi athrawon i dreulio mwy o amser ar faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag addysgu a dysgu.

5.44 Ceir gwendidau yn y ffordd y mae ysgolion yn rheoli staff cymorth. Er enghraifft, yn aml nid yw eu gwaith yn cael ei gydlynu'n effeithiol ac nid yw llawer yn cael digon o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion yn hyfforddi staff cymorth i gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol. Lle caiff hyfforddiant da ei drefnu, adroddodd nifer fawr ar forâl gwell.

5.45 Mae rhai AALlau wedi archwilio anghenion hyfforddiant yr holl staff cymorth clercaidd a'r cynorthwywyr cymorth dysgu. Bydd yr AALlau dysgu hyn bellach yn hyfforddi staff cymorth yn briodol i fodloni eu hanghenion.

5.46 Mae rhai ysgolion wedi cael trafferth wrth gael staff cymorth. Mae hyn yn hynod nodedig mewn ardaloedd gwledig, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer dosbarthiadau i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

5.47 Mae llawer o ysgolion yn nodi bod ansawdd y staff cymorth yr oeddent yn gallu eu penodi yn amrywiol.

5.48 Mewn nifer fach o ysgolion, nid yw athrawon yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wneir gan staff cymorth. Mae staff cymorth yn ennill tipyn yn llai nag athrawon. Maent yn aml yn teimlo bod eu baich gwaith a'u cyfrifoldebau'n cynyddu ond nad ydynt yn cael eu talu'n ddigonol am hynny.

5.49 Mewn nifer fach o ysgolion, caiff athrawon newydd gymhwyso sy'n methu cael swyddi fel athrawon eu cyflogi fel cynorthwywyr cymorth dysgu.

Adnoddau

5.50 Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adnoddau ychwanegol sylweddol i gefnogi'r Cytundeb. Dyrannwyd yr arian hwn i'r AALlau ei ddosbarthu i ysgolion

ar sail fformiwlâu wedi'u cytuno'n lleol.

5.51 Ym mhob AALl, caiff rhai o'r adnoddau a ddefnyddir i gefnogi'r Cytundeb Cenedlaethol eu dal yn ganolog. Mae'r adnoddau hyn yn talu am swyddi Rheolwyr Newid ac ar gyfer y rhaglenni hyfforddiant arwyddocaol a gynhelir gyda phenaethiaid. Mae'r tynnu'r 'haenen uchaf' hon o nawdd y baich gwaith yn amrywio ledled Cymru o 7.5% o gyfanswm cyllideb y baich gwaith ar y lefel uchaf i 4% ar y lefel isaf.

5.52 Ceir gwahaniaethau yn y fformiwlâu cyllido ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Cenedlaethol mewn gwahanol AALlau ledled Cymru. Er yr ymgynghorwyd ynghylch dosbarthu adnoddau rhwng sectorau cynradd ac uwchradd a bod hyn wedi'i dderbyn yn gadarnhaol mewn rhai AALlau, mewn eraill, mae penaethiaid wedi gwrthwynebu'r ffordd y caiff adnoddau eu rhannu. Y rheswm am hyn yw bod penaethiaid yn yr AALlau hyn yn teimlo nad ydynt yn cael dosbarthiad teg o'r adnoddau sydd ar gael.

5.53 Mae dosbarthiad yr adnoddau rhwng sectorau cynradd ac uwchradd yn amrywio rhwng 80% ar gyfer ysgolion cynradd a 20% ar gyfer ysgolion uwchradd i 50% ar gyfer ysgolion cynradd a 50% i ysgolion uwchradd. O ganlyniad, mae'r symiau o arian a ddyrennir i ysgolion tebyg ledled Cymru yn amrywio.

5.54 Mae rhan fwyaf y penaethiaid yn gweld bod llwyddiant wrth weithredu'r Cytundeb Cenedlaethol yn dibynnu ar nawdd digonol. Er bod ysgolion wedi ymdopi'n dda hyd yma wrth ddarparu adnoddau i leihau'r baich gwaith, mae yna bryder mawr ymhlith rhan fwyaf yr ysgolion na fydd ganddynt ddigon o nawdd ar gyfer cam nesaf y gweithredu, yn benodol, ar gyfer gofynion amser cynllunio, paratoi ac asesu.

5.55 Mae nifer fach o athrawon yn cwestiynu'r arian mawr sy'n cael ei wario ac yn teimlo y gallai hwn fod wedi'i wario mewn ffyrdd gwell, er enghraifft, trwy leihau meintiau dosbarthiadau neu trwy gael mwy o staff cymorth mewn dosbarthiadau gydag athrawon o ddydd i ddydd.

Rheoli newid

5.56 Mae'r Cytundeb Cenedlaethol yn nodi 'bydd angen i arweinwyr ysgol… gael eu cefnogi gan raglen rheoli newid genedlaethol, i helpu cyflawni'r diwygiadau angenrheidiol yn eu hysgolion…'.

5.57 Bu ansawdd yr hyfforddiant a drefnwyd gan Reolwyr Newid yn amrywiol. Mae llawer o ysgolion yn adrodd y bu'r hyfforddiant yn dda iawn tra mae rhai yn ei ddisgrifio'n wael. Y rheswm am hyn gan mwyaf yw oherwydd bod rhai ysgolion wedi teimlo nad oedd yr hyfforddiant a gynhelir yn eu AALlau wedi bodloni eu hanghenion sector penodol yn ddigonol.

5.58 Mae'r hyfforddiant wedi canolbwyntio ar y newidiadau arwyddocaol ar gyfer ysgolion o weithredu'r Cytundeb Cenedlaethol.

5.59 Teimlai lawer o benaethiaid fod rhy ychydig o gyfleoedd yn ystod yr hyfforddiant i drafod neu i wneud yr hyfforddiant yn berthnasol i'w sefyllfaoedd ysgol penodol eu hunain. Teimlai lawer hefyd fod diffyg cyd-destun Cymreig yn y deunyddiau a ddefnyddiwyd. O ganlyniad, bu llawer o'r sesiynau hyfforddiant yn anodd i'r Rheolwyr Newid eu cyflwyno.

5.60 Mae cymorth penodol i ysgolion gan Reolwyr Newid yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mewn llawer o ardaloedd, mae Rheolwyr Newid yn ymateb yn dda i geisiadau neu'n trefnu sesiynau gweithdy. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, ni chafodd yr ysgolion unrhyw gymorth unigol.

5.61 Mewn rhai ardaloedd, mae Rheolwyr Newid wedi rhoi cyngor penodol i ysgolion ynghylch y cyfuniad posibl o staff ac eraill a allai wneud y Timau Newid i fyny. Mae'r rhain yn dimau y gallai eu haelodau gynnwys trawstoriad o staff yn yr ysgol a chynrychiolwyr disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Diben Tîm Newid fyddai ystyried a chynllunio'r newidiadau y mae eu hangen gan roi ystyriaeth i leihau'r baich gwaith ac ailfodelu'r gweithlu.

5.62 Fodd bynnag, nid yw rhan fwyaf yr ysgolion wedi ffurfio Timau Newid a daeth cefnogaeth ar gyfer newid o fewn strwythurau rheoli presennol. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn gweithio'n dda.

Effaith y Cytundeb Cenedlaethol

5.63 Mae gweithredu'r Cytundeb Cenedlaethol ar gam rhy gynnar i gael unrhyw effaith sylweddol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

5.64 Mae rhan fwyaf yr ysgolion yn adrodd bod y newidiadau a weithredwyd hyd yma heb gael llawer o effaith, os o gwbl, ar ddisgyblion, ac mae disgyblion yn gyffredinol anymwybodol o unrhyw newidiadau.

5.65 Mae llawer o athrawon yn ddrwgdybus ynghylch a fydd y newidiadau yn arwain at godi safonau.

5.66 Yn gyffredinol, mae athrawon yn gwerthfawrogi'r newidiadau ac maent yn ymgymryd â llai o dasgau gweinyddol a chlercaidd. Mae ganddynt ddealltwriaeth gliriach o ffocws eu gwaith ar addysgu a dysgu.

5.67 Mewn llawer o ysgolion, defnyddiodd athrawon yr amser ychwanegol a grëwyd ar gyfer materion ystafell ddosbarth cyffredinol ond heb lawer o gynllunio priodol. O ganlyniad, ychydig welliant cyffredinol a welir. Fodd bynnag, mae eraill yn nodi y gallant dreulio mwy o amser ar gynllunio a marcio'n fwy effeithiol ac ar baratoi'n well ar gyfer gwersi.

5.68 Ceir rhywfaint o dystiolaeth gan athrawon o gydbwysedd gwaith/bywyd gwell.

5.69 Mae baich gwaith penaethiaid wedi cynyddu'n gyffredinol.

5.70 Mae gan lawer o ysgolion brosesau gwell i helpu athrawon gyda thasgau gweinyddol a chlercaidd.

5.71 Mae ysgolion uwchradd wedi mynd i'r afael â'r cyfyngiadau ar athrawon sy'n llanw ar gyfer cydweithwyr absennol yn llwyddiannus.

Materion cyffredinol

5.72 Mae'r Cytundeb Cenedlaethol yn cyfeirio at yr angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru 'ledaenu'r safonau a'r cytundeb baich gwaith i bob rhan o'r gwasanaeth addysg a chymryd camau i sicrhau ei fod yn cael ei ddeall yn eang trwy ymgyrch cyfathrebu ymroddedig'.

5.73 Cafwyd diffyg gwybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran lleihau'r baich gwaith ac ailfodelu'r gweithlu ar gyfer athrawon, rhieni a llywodraethwyr. Mae hyn wedi golygu bod penaethiaid unigol wedi gorfod lledaenu'r materion hyn a rhoi gwybod i'r grwpiau hyn.

5.74 Mewn llawer o ysgolion, mae penaethiaid wedi rhoi gwybod yn dda i'r staff am y newidiadau. Fodd bynnag, nid yw llawer o ysgolion wedi rhoi gwybod i rieni am faterion baich gwaith a gweithlu yn ddigon manwl.

5.74.1 Lluniodd rai AALlau wybodaeth safonol i rieni ac maent yn dosbarthu'r rhain i'w hysgolion.

5.75 Nid yw'r holl lywodraethwyr yn ymwybodol o'r newidiadau y mae eu hangen neu o arwyddocâd y newidiadau hyn. Nid yw llawer o lywodraethwyr yn ymwybodol o'r hyn y mae lleihau baich gwaith ac ailfodelu'r gweithlu yn ei olygu, hyd yn oed yn yr ysgolion hynny gyda llywodraethwyr cryf a chefnogol

5.76 Mae Llywodraethwyr Cymru yn rhoi trosolwg i lywodraethwyr o'r hyn y mae'r Cytundeb Cenedlaethol yn ei olygu gyda chylchlythyr Haf 2005. Bydd hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i lywodraethwyr ysgolion.

Atodiad 1

Tasgau gweinyddol a chlercaidd.

Ni ddylai fod angen i athrawon ymgymryd â thasgau gweinyddol a chlercaidd yn rheolaidd, sy'n cynnwys:

• casglu arian	• mynd ar drywydd absenoldebau
• llungopïo swm sylweddol o ddeunyddiau	• llunio llythyrau safonol
• llunio rhestrau dosbarth	• cadw cofnodion a ffeilio
• rhoi arddangosfeydd dosbarth i fyny	• dadansoddi ffigurau absenoldeb
• prosesu canlyniadau arholiadau	• coladu adroddiadau disgyblion
• gweinyddu profiad gwaith	• gweinyddu arholiadau
• goruchwylio arholiadau	• gweinyddu athrawon llanw
• datrys problemau a mân atgyweiriadau ar gyfer cyfarpar a systemau TGCh	• comisiynau cyfarpar TGCh newydd
• archebu cyflenwadau a chyfarpar	• cyfrif stoc
• catalogio, paratoi, cyhoeddi a chynnal a chadw cyfarpar a deunyddiau	• cofnodi cyfarfodydd
• cydlynu a chyflwyno ceisiadau	• ceisio cyngor personél a'i roi
• rheoli data disgyblion	• mewnbynnu data disgyblion